



## Gwerthusiad Doethineb Gwledig Dogfen Friffio 1: Dylanwadu ar bolisi yn yr Alban

Ionawr 2020



Mae Doethineb Gwledig yn dylanwadu ar ystod o faterion polisi i gefnogi pobl hŷn i barhau i fyw mewn cymunedau gwledig. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio sut mae hyn yn digwydd yn yr Alban.

***"Polisiau yng Nghymru a'r Alban yn cefnogi pobl hŷn i barhau i fyw yn y cymunedau gwledig y maent yn eu hadnabod ac annog cyfraniad pobl hŷn i'w cymunedau".***

### (Canlyniad 3 Doethineb Gwledig)


Mae un o'r pedwar canlyniad ar gyfer Doethineb Gwledig yn canolbwyntio ar gefnogi pobl hŷn i fyw mewn cymunedau gwledig ar lefel bolisi. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cydnabod ers amser y problemau a wynebir gan bobl sy'n byw yn y cymunedau gwledig hynny sy'n cwmpasu rhan helaeth o'r wlad ac maent yn ymwybodol o'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu i gynnal eu hansawdd bywyd wrth iddynt heneiddio. Fodd bynnag, mae yna fwlch wedi bod yn y polisiau sy'n mynd i'r afael â phroblemau a wynebir gan bobl hŷn sy'n byw mewn cymunedau gwledig a'r rôl y gall pobl hŷn eu hunain ei chwarae wrth arwain newid yn yr ardaloedd hyn i'w galluogi i barhau i fyw yno.

Dyma gyfle i ddefnyddio'r dysgu o Doethineb Gwledig i ddylanwadu ar bolisi Llywodraeth yr Alban.

Erbyn dechrau 2018, galluogodd gwersi o'r ymgysylltiad â phobl hŷn yn nhri lleoliad Doethineb Gwledig yr Alban, Outside the Box (Partner Doethineb Gwledig a'r Arweinydd yn yr Alban) i fynd i'r afael â

blaenoriaethau gydag awdurdodau lleol, Partneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Byrddau Iechyd a Llywodraeth yr Alban.

Mae Outside the Box (OTB) yn cymryd rhan yn y fforymau hyn ac yn ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth yr Alban (e.e. ar dlodi Tanwydd, Trafnidiaeth, cysylltiadau Cymdeithasol, Bwyd a diet iach a strategaeth Cyngor Cenedlaethol yr Ymgynghorwyr Gwledig ar gyfer yr economi wledig) i gynnwys profiad pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig. Yn ogystal, mae pobl yn ardaloedd Doethineb Gwledig a lleoedd eraill yn cael eu hannog i gyfrannu'n uniongyrchol at ymgynghoriadau a digwyddiadau fel ffordd i bobl wybod bod ganddynt lais.



# Pobl hŷn yn cyfrannu at strategaethau cenedlaethol

Drwy Doethineb Gwledig, cafodd pobl hŷn eu gwahodd a'u hannog i gyfrannu at sesiynau ymgynghori ar strategaethau cenedlaethol y llywodraeth

e.e. ynglŷn â strategaethau i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol - a arweiniodd at '**A Connected Scotland: Our strategy for tackling social isolation and loneliness and building stronger social connections**', a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018.

Mae OTB hefyd wedi rhoi cyflwyniadau ar Doethineb Gwledig ac wedi cael gwahoddiad i fod yn rhan o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â pholisi megis Cynhadledd Flynyddol Gweithredu Gwledig yr Alban a Chynhadledd Genedlaethol Tai Gwledig. Cymerodd Doethineb Gwledig ran yn Senedd Wledig yr Alban ym mis Tachwedd 2018 (sy'n digwydd bob 2 flynedd), a gofynnwyd iddynt fod yn rhan o grŵp ffocws ar gyfer cynllunio polisi gwledig, etc.

Trefnir sesiynau 'dod ynghyd' rheolaidd yn yr Alban i rannu'r dysgu o Doethineb Gwledig ac edrych ar broblemau a safbwyntiau gyda phobl mewn ardaloedd gwledig eraill yn yr Alban.

Yn ystod 2019, mae Doethineb Gwledig wedi parhau i fwydo'r dysgu hwn i mewn ar lefel polisi cenedlaethol yn yr Alban drwy aelodaeth o'r Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Fforwm Gweithredu Strategol Pobl Hŷn.

Mae hyn wedi cyfrannu at siapio polisiau fel y gwelir yn y materion gwledig a drafodir yn y strategaeth newydd i bobl hŷn '**A Fairer Scotland for Older People: A Framework for Action**', a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019. Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau o Doethineb Gwledig a dyfyniadau gan bobl sy'n rhan o Doethineb Gwledig yn Eaglesham (sydd wedi'u gwneud yn ddienw yn y ddogfen strategaeth). Mae hefyd yn dyfynnu adroddiad diweddar gan Gyngor Cenedlaethol yr Ymgynghorwyr Gwledig sydd wedi ymgynghori ag OTB/Doethineb Gwledig.

Mae Outside the Box yn parhau i ddefnyddio'r dysgu o Doethineb Gwledig i gynnwys safbwynt pobl hŷn o gymunedau gwledig mewn trafodaethau eraill sy'n ymwneud â pholisi, e.e. gyda Fforwm Dyfodol yr Alban, ymgynghoriadau Llywodraeth yr Alban ac ymgynghoriadau eraill sy'n bwnc penodol.

## Adnoddau

Gallwch ddarganfod mwy am sut mae Doethineb Gwledig yn dylanwadu ar bolisi yng Nghymru:

[www.ndti.org.uk/news/rural-wisdom-evaluation](http://www.ndti.org.uk/news/rural-wisdom-evaluation)

Mae gwefan Doethineb Gwledig yn darparu blogiau rheolaidd gan y cymunedau a chyhoeddiadau, yn cynnwys, '**Cyngor ar Gymunedau Aml-genedlaethol**' a '**Cael Llais a Chael eich Clywed**' sydd i ddod yn fuan.

[www.ruralwisdom.org](http://www.ruralwisdom.org)

## Pwynt Cyswilt Gwerthuso

Carol Clifford

Arweinydd y Rhaglen: Heneiddio â Phobl Hŷn

E-bost: [Carol.Clifford@ndti.org.uk](mailto:Carol.Clifford@ndti.org.uk)

Ffôn: 01225 789135

Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer  
Cynhwysiant (NDTi)  
Llawr Cyntaf  
30-32 Westgate Buildings  
Caerfaddon BA1 1EF

[www.ndti.org.uk](http://www.ndti.org.uk)